YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 12] RHAGFYR, 1920 [PRIS 3c.

CYNHWYSIAD.

AR ADEN FFYDD.
Y PISYN TAIR.
Y PARCH. JOHN JONES, ABERDAR.
OFFEIRIADAETH A DIFRAWDER CREFYDDOL.
RHANNAU O BREGETH J. M. HOWELL, ABERAERON.
CYWYDD CYFARCH.
PRIODAS.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Dantonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

"THE TRAINING OF MIND AND WILL"

By W. Tudor Jones, M.A., Ph.D.

CONTENTS:

Foreword by Dr. Alex Hill.
Chapter I. Introduction.
II. Need of Ability.
III. Knowing our own Mind.
IV. Observation, Attention, Concentration, Will-power, Memory.
V. The Three Levels of Mind—Perception, Association, and Reflection.
VI. The Four Sides of Life and their Cultivation—(*a*) The Civic Side (*b*) The Vocational Side; (*c*) The Cultural Side; (*d*) The Religious Side.

Price, 2/6. Postage, 3d.

Obtainable from—
J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -

Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR 1920. [CYF. XX RHIF 12.

AR ADEN FFYDD.

I.

Hiraethaf am y lleisiau gynt,
A gwenau'm hoffus rai,
Fy Nuw a'u cludodd ar eu hynt,
Fe ni wna ddim ar fai.

II.

Pa beth sy'n y dyfodol cudd
O ryfeddodau maith ;
Ai byw ai marw, 'nghred a fydd
Trugaredd Duw a'u gwnaeth.

III.

Os gwan f'amynedd i a byrr
I oddef cur a phoen ;
Y gorsen ysig fe nis tyrr,
Rhydd nerth i'w ddwyn a hoen.

IV.

Disgwyliaf felly'r Ddistaw Rwyf
Gerllaw y distaw For ;
Ond disgwyl ganddo ef nid wyf
Un drwg ar dir na mor.

V.

Nis gwn b'le dyrch ynysoedd Duw
Eu palmwydd ddail i'r nef ;
Ond gwn nas dianc un dyn byw
Fyth hwnt i'w ofal ef.

JOHN GREENLEAF WHITTIER.
(*Cyf. R.J.J.*)

Y PISYN TAIR.

(*A Study in Values*).

AR grwydr rhyw dddiwrnod oer a glawog cyfarfûm a chardotyn llwm—hen dramp, a rywsut teimlwn yr hoffwn dynnu darlun ohono gan ei alw yn "Siom," oherwydd yr oedd chwerwder ei siom ar ei wisg ac ar ei wedd. Amlwg y canfyddir o syllu arno iddo weld gwêll dyddiau, ac yr oedd ei osgo'n bradychu'r *tramp*, ond dywedai'i lais crynedig fod newyn ac afiechyd yn pellhau tloty oddiwrth dloty. Nid oedd ei ddillad, neu yr hyn elwid yn ddillad, oherwydd diffyg enw gwell ond "chware" i'r gwynt. Crynai'r ên, a'r goes, a'r llaw mewn cydymdeimlad a'i gilydd. Bregus a brau oedd ei babell, ac nid oedd ganddo gâr na chyfaill, na drws agored yn unlle.

Bu neithiwr ar ryw daflod neu gilydd yn disgwyl y bore. Tybed iddo ladrata rhywbeth? Credaf ei fod yn rhy onest, ond sicr buasai'n brofedigaeth lem i mi ar yr un amgylchiad. Ni syllai 'mlaen nac ol. Cerddai'n araf a thrwsgl, ac ai'r traed y ffordd a fynnent fel pe buasent yn hen gynefin a'r llwybr. Yr oedd wedi colli'i hunanbarch a'i ddiddordeb mewn bywyd. Nid dyn mohono, ond plocyn o bren a phawb yn curo arno. Nid oedd neb am ei weled, a'r unig groeso a gai oedd croeso ci ar gyfeiliorn.

Unig iawn ydoedd, ac amheuai plant yr ysgol hyd yn oed ei hawl i gerdded y briffordd. Nid oedd ganddo na charreu na phin, nac hyd yn oed falad i werthu, a phe ceisiai ganu buasai llais y dallhuan yn felys wrth ei lais ef: *tramp* ydoedd yn byw ar drugaredd mewn oes ddidrugaredd. Yr oedd ei wyneb ar y tloty, a meddyliwn am yr ysgwyddau teneu a'r breichiau crynedig yn gorfod torri cerryg cyn ennill y *skilly* a'r crystyn bara.

Canfu mi yn ei wylio'n dosturiol, a throes ataf gyda gwên farw ar ei wyneb budr. Ni ddeallais mo'i eiriau. Ni cheisiais eu deall ond gwyddom eu hystyr. Rhois fy llaw yn fy mhoced. Nid oedd yno ond *pisyn tair*, ac estynais ef iddo. Llonnodd ei lygad, a dwedai'r deigryn llwyd oedd ar ei rudd fod ei galon yn diolch. Trois ymaith, ond rywsut ni fedrwn anghofio'r goleu oedd yn ei lygad o weld y pisyn tair.

O synfyfyrio felly, ehedodd fy meddwl yn ol am chwarter canrif. Cofiais am fore calan oer a gwyntog, a'r eira'n cuddio'r llawr, ac yr oeddwn innau'n ieuanc. Eto yr oedd yn rhaid imi gael hela calennig. Euthum o dŷ i dŷ. Trywanai'r gwynt hyd y mêr. Wylwn droion gan yr oerfel, ac nid oedd dimai—hyd yn oed dimai newydd—ddim yn ddigon i wresogi calon plentyn ar fore o aeaf. Crwydrais yn ol a blaen dros fryn a dôl gan golli'r ffordd yn aml, ond o'r diwedd deuthum at amaethdy parchus ynghesail y bryn, a llonnodd fy ysbryd pan gefais bisyn tair yn galennig, ac yr wyf yn methu dyfalu hyd heddyw p'un ai'r pisyn tair ynte'r tân mawn a'm gwresogodd. Sicr

i mi fynd i'm hynt yn llon fy nghalon a sionc fy ngherddediad, a chredwn fod y pisyn tair yn ffortiwn. Druan ohonof y mae amser wedi'm dwyn i ail-astudio'i werth, a dyna paham y gelwais fy ysgrif fèr—Y Pisyn Tair (*A Study in values*).

Gynt yr oedd y pisyn tair yn ffortiwn i'r *tramp* a myfi. Cyn y rhyfel yr oedd yn bodlonni cydwybod mewn *silver collection*, ond heddyw nid yw ond y nesaf peth i ddim. Beth geir heddyw am bisyn tair, tybed? a thorrodd goleu newydd ar ddameg y weddw a'r ddwy hatling. Pan fo popeth bron wedi treblu o leiaf, ac hyd yn oed y siwgr yn bedair ar ddèg y pwys, a phawb yn talu.n ddistaw pe'i ceffid, faint o werth a roir ar bisyn tair heddyw?

Ofer holi a synfyfyrio, a throis rhag yr ystorm o fellt a tharanau i dŷ cydnabod. Yr oedd yntau gartref, ac wedi cyfarch gwell iddo canfum amlen felen "Yr Ymofynydd" yn ei law. "Nid oes fawr o newyddion ynddo," meddai, "ac y mae wedi codi i dair ceiniog y rhifyn." Canfum o ba gyfeiriad y chwythai'r gwynt, ond ni ddywedais yr un gair, ond gofynwn i mi fy hun faint yn rhagor o werth oedd tair ceiniog na phisyn tair! Gadewais iddo ollwng y *steam* ymaith cyn dywedyd dim. Ni amheuais mohono. Rhydd iddo draethu'i farn, a gwnaeth hyny yn ddigamsyniol.

Yr oedd papur dyddiol ar y bwrdd wedi dyblu'i bris, ac ni rwgnachai ddim. Ysmygai'n ddiorffwys er fod y myglys wedi dyblu. Ymhen ennyd wedi trin a thrafod materion y dydd, a hithau'n hwyrhau, daeth ei eneth fach ato gan ofyn iddo am arian i fyned i'r *Cinema*, a heb rwgnach y'u rhoes. Wedi i'r fechan fyned gofynais i'm cyfaill faint gostiai tocyn yr eneth, ac atebodd yntau ar unwaith —tair ceiniog a'r *tax*. Ni ddywedais ddim mewn ateb. Nid oedd gennyf ddim i'w ddywedyd. Am fwyniant a phleser am awr telid tair ceiniog ddwy a thair gwaith yr wythnos, ond pan ofynir *a copper* —chwedl y Prif Weinidog gynt, er cyfarfod a threblu pris papur ac argraffu, er cadw'n gyfan y ddolen a asia eglwysi'r ysmotyn du; er cadw ar gof y rhai lafuriant yn y winllan i'r oes nesaf, ac er rhoi cyfle i rywun lefaru wrth gynnulleidfa fwy mewn iaith amherffaith ddigon, mae'n wir, ni ellir hepcor *a copper—simply a copper*.

Ni amddiffynais bapur enwad erioed, ond yn oes papurau y llofruddio a'r ysgaru, y creulonderau a'r gwarth, yn oes y *sensational Press*, credaf mai iechyd i ben a chalon plentyn, heb son am rai mewn oed, ydyw troi tudalennau llwyd a theneu rhyw *Seren* neu *Dywysydd*, rhyw *Gyfaill Eglwysig* neu *Greal*, rhyw *Athraw* neu *Ymofynydd*, lle ceir rhywbeth i sirioli, i brydferthu ac i buro bywyd. Rhwydd crwydro, ond tybed a ŵyr y grwgnachwyr y ffwdan a'r gost i gynyrchu rhifyn a werthir am bisyn tair! Paham na buasai'r grwgnachwr cyndyn yn cynnyg ei law i anfarwoli'i hun, i oleuo'i genedl ac i gyfoethogi llên ei wlad?

Nid er gwawdio yr ysgrifennaf ond cofiaf am feirniad enwog yn barnu cyfieithiad o "Hen wlad fy Nhadau" i'r iaith Saesneg. Cwynai'n hir wedi darllain y cynhygion o weld nad oedd un yn ei foddio. Cynhygiodd ei hun a deallodd. Bum yn rwgnachwr fy hun

lawer tro, ond hoffwn i bob un wrth rwgnach ystyried gwerth pisyn tair heddyw—gwneuthur *study in values* yn hytrach na grwgnach. Dywedir y mýn pregethwr bregethu, a gwir hyn. Rhwydd y codir i lefel uwch na phisyn tair—oddiwrth y tymhorol a'r diflanedig er astudio gwir werth.

Cofus gennyf ddarllain yn rhywle—nis gwn p'un ai ffaith a'i ffug ydoedd [ond rhwng cromfachau, y mae llawer ffug yn anrhaethol mwy o werth na llawer ffaith] am athraw ysgol enwog yn Lloegr. Yr oedd ganddo ddosbarth o hanner dwsin o fechgyn talentog iawn, a phan ymadawent am Rydychen ceisiodd ganddynt ymweled ag ef ddeng mlynedd i'r noson honno, os byw ac iach. Daeth pump o honynt wedi codi'n uchel yng ngwahanol gylchoedd bywyd, ond yr oedd un sedd—sedd athrylith y dosbarth yn wag. Ymhen ennyd o ddisgwyl daeth yntau, ond yn ei garpiau megis. Collodd ei dad. Ymedy a Rhydychen er cynnal ei fam a'i frodyr. Yngolwg y byd, yngwerth tymhorol bywyd, *methiant* oedd ei fywyd, ond ys dywedodd yr athraw a llais crynedig: "*Some failures are nobler even than success.*"

Hwyrach y gofyn rhywun paham yr ateb hwn? Nid yw ond syniad uwch am werth pethau—*a study in the higher values*, a chofier, camsyniad y byd heddyw ydyw prisio wrth lefel isel. Yn ol safon y byd o brisio, methiant oedd bywyd Iesu, ie, a bywyd pob diwygiwr a phob dyngarwr. Y mae pob un heddyw yn chwythu'i gorn ei hun, a pho uchelaf y chwyth, uchaf ei bris gan y byd ellid tybio, ond nid felly yn y pen draw. Y mae *slump* yngwerth llawer un wedi i'r byd ei adnabod. Y mae gwerth arall yn cynyddu, ac y mae goreu bywyd yn dywedyd wrtho, "Y cyfaill, eistedd yn uwch i fyny."

Nid yw hyn ond dwy safon o brisio, safon faterol a thymhorol, a safon yr ysbryd a'r tragywydd, safon y diflanedig a safon yr aniflanedig, safon y byd a safon Duw, ac nid oes dim yn fwy diddorol na chymharu'r ddau werth—gwneuthur *study in values*, a phe medrem gael pob un i farnu bywyd yn unol a safon Duw—yn ol ei iawn werth, mor lân fuasai'n rhodiad, mor bur fuasai'n bywyd, mor debig i Grist y buasem. Nid yw'r cyfan ond megis o gymharu'n isel gwerth tair o *Cinema* ac o lenyddiaeth—gwerth tair o Charlie Chaplin ac o Iesu—gwerth tair i foddio, gwerth tair o bleser er anghofio, a gwerth tair o rybuddion, annogaethau a chynghorion er ein cael i rodio'r llwybr gwyn. Ni chollfarnaf mo'r *Cinema*. Medr fod yn llawforwyn i addysg a diwylliant o'i hiawn ddefnyddio. Ni wnaf i ond rhoi *tonic* i'r grwgnachwr ar bwys y pisyn tair gan wneuthur *Study in values*.

T. O. W.

Y PARCH. JOHN JONES, ABERDAR.

[Parhad o tudalen 168.]

Nid hawdd sylweddoli y gwahaniaeth dirfawr rhwng gofynion *athraw ysgol* y dyddiau gynt a'r hyn ydynt heddyw. Meddylier am ysgol o 35 i 40 o blant, oll dan ofal un athraw, oll mewn un ystafell, o bob oedran, ac oll yn amrywio yn eu safleoedd dysg, o'r rhai oedd yn dysgu yr Abiec i fyny at y rhai oedd yn ymwneud a Groeg a Lladin, Euclid ac Algebra, &c. Nid oedd yn hawdd cadw trefn, ac nid rhyfedd os byddai y wialen yn y golwg ambell bryd.

Fel un o hen ysgolorion yr Athraw o Gastell Hywel, byddai yn naturiol iddo ddilyn rhai o gynlluniau hwnw. Mae gennyf fi brawf fy hunan ei fod yn gosod mwy o bwys nag a wneir heddyw ar y Lladin fel cyfrwng addysg. Fel ei hen athraw hefyd, nid arbedai y wialen. Gwahaniaethai felly oddiwrth Timotheus Dafydd o Gellan, yr hwn yn ei draethawd ar Grefydd a gyfeiria at *yr arferiad gwarthus* o guro plant. Ni osodai John Jones y wialen ar waith yn aml, mae'n wir; ond pan wnai, nid chwareu fyddai, ond rhywbeth i'w gofio. Cofiaf am ddau achlysur pan y tyngai y Boy Bach y delai dydd dial pan fyddai efe yn fachgen mawr. Ond mwy na thebyg i'r Boy Bach pan ddaeth yn Boy Mawr newid ei feddwl, a chael ei argyhoeddi fe allai, fel Major Evans gynt, fod y wialen wedi helpu i wneud dyn o hono. O leiaf ni ddaeth dydd dial byth. Yn y cysylltiad hwn fe oddefir i ni ychwanegu stori fach i awgrymu ei ofal a'i bryder yng nghylch rhinwedd a moes y rhai dan ei ofal. Cofiaf ef un tro yn prynu Hanes Twm Shon Cati, a chofiaf ef wedi'n yn gosod y llyfr newydd yn y tân, a'i losgi'n ulw, fel na byddai yn demtasiwn i ddrwg i neb o'r ysgolorion. Cofiaf ef dro arall yn gyrru un o'r *boys* allan i olchi ei dafod. Yr oedd hwnnw wedi defnyddio iaith aflan. Digwyddai fod ffrwd fechan o fewn golwg i ddrws yr ysgol, a chofiaf fod yr athraw yn gwaeddi allan nad oedd ei dafod ddim wedi hanner ei lanhau. Gorfuwyd iddo fynd yn ol i wneud cais arall.

Cofiaf weld, pan oeddwn i'n ifanc iawn, dros bedwar ugain mlynedd yn ol, mi dybiaf, enghraifft o'r hyn a elwid yn Llyfr Corn, yr unig un a welais i erioed, ac ni wn i yn y byd beth ddaeth o hwnnw. Math o* gynlyfr (*primer*) i blant bach oedd—llafn o bren neu bapur, ar yr hwn yr oedd yr Abiec, y rhifnodau—1, 2, 3, 4, &c.—a Gweddi'r Arglwydd, wedi eu hargraffu, ac ar draws wyneb hwnnw yr oedd llafn arall i'w amddiffyn,—llafn o gorn y gellid gweld trwyddo. Yr oedd llun croes hefyd yn wastad o flaen y llythrennau, ac oddiwrth hwnnw cafodd enw arall—Christ Cross Row. Dyna wraidd ein "Cris-crôs" ni heddyw—"+ *By mark!*" Tybir i'r Llyfr Corn ddyfod i arferiad tua'r flwyddyn 1450, ac iddo barhau y mwyaf poblogaidd o lyfrau hyd ddechreu y ddeunawfed ganrif. Prinhaodd yn raddol ar ol hynny, a chymerwyd ei le gan y *Battledore*. Cofiaf am hwnnw yn dda. Nid oedd ond carden wedi ei phlygu ar ffurf llyfr, gyda'r un gwersi a'r Llyfr Corn. Cynwysai'r Llyfr Corn a'r Battledore yr oll o addysg a dderbyniasai'r miloedd yn y blynyddoedd hynny.

---

* *Math o*, os gwelwch yn dda; nid *math ar*. Paham y rhaid dilyn y Gogleddwr? Yr wyf yn synnu at yr Hwntw.

Anfynych y byddai yn dod a'i offer gwyddonol* i'r ysgol ; ond pan fyddai, crëu ddyddordeb mawr ym mhlith y plant hynaf yn enwedig—dyddordeb arwynebol digon tebyg ; ni chlywais iddo arwain i ddim ymarferol. Eto, dyddorol ar y pryd fyddai'r oll—gweld y parotoadau, &c. Cofiaf yn dda y tro cyntaf y gwelais y Sugnedydd Awyr (*Air Pump*), gyda'r Bell-jar—llestr gwydr mawr, yr hwn a osodid a'i wyneb i waered, a llygoden fach y tro hwnnw o fewn iddo, yn garcharor. Yna gosodid y peiriant ar waith, a dihyspyddid y llestr o'r holl awyr oedd ynddo, ac ym mhen ychydig fe welid y llygoden fach yn trengu. Y Wers : Ni all hyd yn oed llygoden fach ddim byw heb awyr. Ni ddichon dim sydd a bywyd ynddo fyw heb awyr.

Hyd yn ddiweddar, cyfrifid yr awyr, fel tair eraill, yn elfennau na ellid eu rhannu i ddim llai. Ceir adgof o'r syniad yn y llinellau canlynol adawodd Rys Hywel Rhys i fod yn goffa am dano ei hunan :

'Nol ing a gwewyr angau
I ddryllio fy mhriddellau,
Rhwng daear, awyr, dwr a thân,
Mi 'mranna'n fan ronynnau.

Er heddyw fe wyddys nad oes un o'r pedair yn elfen. Mis Awst 1, 1774, gwnaethpwyd y darganfyddiadau gan Dr. Priestley nad elfen, ond peth cyfansawdd oedd awyr. Pan oeddwn i yn ifanc cyfrifid yr elfennau yn rhyw 70 neu 80 mewn rhif. Heddyw ni sonir am yr elfennau ond am yr *electrons*. Er hynny gwnaeth y syniad am elfennau—*atoms*—wasanaeth da am hir amser. Yr oedd y syniad yn gam ym mlaen ar lwybr dysg.

Dro arall, cofiaf ef yn dod â'r Peiriant Trydanol i'r ysgol. A mawr oedd y cyffro. Heblaw'r peiriant, 'roedd stol deirtroed—y traed hynny o wydr, wrth gwrs—gyddfau hen boteli, fe allai, er mwyn rhwystro'r trydaniaeth i ddianc. Dodid un o'r bechgyn i sefyll ar y stol, a chydiai rhai o'r bechgyn eraill law yn llaw. Yna gweithid y peiriant, trwythid y bechgyn a'r trydan ; yna os cyffyrddai rhywun ag un o honynt, â'i law neu ei drwyn, neu unrhyw ran, fe welid fflach o dân yn dod o honno. Difyr iawn a newydd iawn oedd hyn oll, ond hyd yn hyn nid oedd yn ddim ond megis chware plant. Wrth gwrs fe wyddys llawer mwy am drydaniaeth heddyw nag a wyddid y pryd hwnnw. Gwyddom heddyw ei fod yn ffynhonell goleu, gwres a mudiad (*light, heat and motion*) ; ei fod heddyw yn goleuo ein trefydd, yn gyrru ein cerbydau, ac yn cymryd lle glo i gynyrchu gwres. Dr. Franklin gafodd allan mai yr un o ran natur yw'r trydan a'r fellten sy'n rhwygo'r cwmwl. Carem weld stori Franklin a'i Farcutan Papur (Kite) yn YR YMOFYNYDD. Stori ddyddorol yw.

Yn yr ysgol† yr oedd eisteddle arferol yr athraw yn ymyl y drws. Oddiyno gwelai yn agos ac ym mhell hefyd. Un diwrnod, dyna ddyn trwsiadus yr olwg yn neshau. Adwaenai ef ar unwaith fel un fu'n was cyflog yn Rhandir gyda'i fam ; a phan ddaeth yn ddigon agos fe'i cyfarchodd : "Holo, Dai, o ble dest ti?" "Nid Dai yw'm enw i," ebe hwnnw. "Beth yw dy enw di ynte?" "David Jones." "O, ie, 'run dyn wyt ti! Wel, dywed, beth wyt ti'n ei wneud yn awr?" "Doctor yn awr!" "Doctor, syndod! O ble cest ti'r addysg?" "O fry," gan droi ei wyneb tuag i fyny!

---

* Gweler YMOFYNYDD 1920, tud. 134.

† Yr hen Ysgoldy. Yr oedd hwn y drws nesaf, y gorllewin i'r Capel. Symudwyd i'r Ysgoldy newydd—y Festri heddyw.

Ryw ddydd neu ddau yn ddiweddarach, galwodd yr athraw gyda Mr. John Jones, y Fferyllydd (*Chemist*) — Y Ceffyl Gwyn — a gofynodd a oedd dyn o'r fath wedi bod yn galw arno. Atebodd fod, a bod ganddo botel pedair owns, ac iddo ofyn am "Four drops of Aqua Fortis, and fill it with Aqua Pura" (dwr glân), a dyna'r oll. Dodai dri dyferyn o hwn mewn potel fechan —potel owns, a llanwai hi o ddwr. Yr oedd yn bur ddiniwed erbyn hyn. Gofynai ddeunaw ceiniog am bob potel. Gyda haeru rhinweddau y moddion, a pharodrwydd menywod Cymru i gredu, gwerthai yn rhwydd, fel nad oedd rhyfedd fod gwas cyflog Rhandir wedi mynd i wisgo yn drwsiadus!

Nid oedd yn credu mewn Cymraeg fyddai a llawer o arogl y *Dictionary* arno; am un rheswm fe allai nad oedd Geiriadur Saesneg a Chymraeg yn ei feddiant. Math o Gymraeg gwneud, Cymraeg *artificial* geid trwy hynny yn rhy fynych, Cymraeg a fyddai â'r geiriau yn ol trefn y Saesneg. Yn groes iawn i'w ewyllys yr ymgymerodd a'r gorchwyl o gyfieithu pregeth y Parch. Thomas Madge yn YR YMOFYNYDD, 1853, gyda'r canlyniad fod gennym rywbeth sydd ym mhell o fod yn Gymraeg naturiol. Mae'n amlwg nad oedd mewn cydymdeimlad a'r gorchwyl mewn llaw, neu fe gymrai fwy o drafferth gydag ef. O'r braidd y gallwn ei alw yn Gymraeg Saesneg chwaith. Mae'r bregeth Saesneg yn dda, ond yn y Gymraeg mae'n darllen mewn modd na ellir llai na'i ddesgrifio yn *artificial*. Brawddega y cyfieithydd yn wahanol iawn i'r hyn oedd ei arfer naturiol, a defnyddia lawer o eiriau ar ffurf anghynefin—geiriau gwneud, megys anamgyffredig, maentiwmio, rhagffurfiedig, didwylldeb, gwreichiannu (?). Byddai rhai o'r ffurfiau hyn fe allai yn oddefol onibai fod y geiriadurwr wedi gosod ffurf arall arnynt. Nid oes amheuaeth nad yw'r cyfieithu o'r Saesneg wedi bod yn foddion i amharu symlrwydd yr hen Gymraeg. Eto rhaid cyfaddef ei fod wedi cyfoethogi'r iaith a lluaws o eiriau defnyddiol. Ar yr un pryd trueni ei fod wedi caniatau i lawer o hen eiriau defnyddiol a desgrifiadol syrthio allan o arferiad.

Yn ystod ei weinidogaeth hirfaith, fe welodd lawer tro ar fyd—trai a llanw masnach, llwyddiant ac aflwyddiant bydol, cyfoeth a thlodi, brwydrau rhwng meistr a gweithiwr, neu fel y dywedir heddyw, rhwng cyfalaf a llafur. Ni wyddid ond ychydig y pryd hwnnw am y deddfau sydd yn llywodraethu'r trai a'r llanw, er fod y geiriau *Supply and Demand* yn ddigon hyspys. I bob ymddangosiad, awydd pennaf pawb oedd cael gafael mewn mwy o'r peth hwnnw sydd, yng ngolwg bydolion, yn gwneud i fyny yr hyn sy'n mynd dan yr enw—cyfoeth.

Pan fyddai masnach yn isel, y tlawd oddiweddid gyntaf. Yna fe ddelai cardota yn beth cyffredin. Galwai hynny am ddoethineb ar ran y rhai fyddai yn cyfrannu, er mwyn penderfynu gyda golwg ar deilyngdod neu anheilyngdod y sawl fyddai yn gofyn am gardod. Yr oedd llawer o dwyllo yn bod, fel ag i beri i'r hwn nid oedd ei incwm yn fawr i fod yn gynil ac ystyriol gyda golwg ar ei roddion. Dyna geisiai ein gwrthrych wneud. Ewyllysiai roi yn ol ei allu lle y teimlai fod angen, ac ar yr un pryd ni ewyllysiai i'r hyn oedd ganddo fynd i gyd i'r un person. Yr oedd eraill yn gofyn, a thrachefn yr oedd dosparth arall a ddylent gyfrannu eu rhan. Beth oedd gan ein gwrthrych i'w wneud?

Ym mhlith y lluaws cardotwyr yr oedd un—Gwyddeles oedd honno, yn galw wrth ei ddrws bob wythnos. Yr oedd hynny yn rhy fynych yn ei dyb ef, a dywedodd wrthi, "Yr ydych yn galw yn rhy fynych. Peidiwch a dod yma eto am flwyddyn." Sylwer ar ei hateb tarawiadol —"Eh, yer honour may be *in heaven* afore then!" Nid yn aml y clywir ateb a chymaint o fynd ynddo. Anodd, dybiaf, fyddai gwrthod yr help, os oedd moddion

help wrth law.

Drwg gennyf eich tryblu, ebe'r boneddwr wrth y ferch fach ddaeth at y drws i'w ollwng allan. Peidiwch son am drwbwl, ebe hithau, nid yw yn ddim trwbwl, ond buasai yn fwy boddlon gennyf pe'n ei agor i'ch gollwng i fewn. Da fydd cofio weithiau am eiriau yr Hen Lyfr: Ateb arafaidd a ddetry lid, ond gair garw a gyffry ddigofaint.

O'r braidd y mae eisiau dweyd fod ein gwrthrych yn Undodwr, yn Undodwr o argyhoeddiad, ac yr oedd ei argyhoeddiadau yn ddwfn. Treuliodd ei oes yn pleidio Undodiaeth—syml a rhesymol. Ni ddaethai'r Drindod, na'r Iawn dirprwyol na'r masnachol, nac athrawiaeth y Poenau Tragwyddol i'r gwasanaeth gydag ef, oddigerth i'w gwrthwynebu. Ar gefn hyn yr wyf am roi gair o rybudd i'r eglwysi ar bwnc pwysig. Credaf fod gormod o barodrwydd wedi ei ddangos gan rai o'n heglwysi Undodaidd yn y gorffennol i ollwng troedigion i'r weinidogaeth heb roi digon o brawf arnynt. Nid yw dyn yn Undodwr yn unig am ei fod wedi ymwrthod â'r hyn sy'n cael eu galw yn athrawiaethau uniongred. Yr hyn mae dyn yn ei gredu, ac nid yr hyn y mae yn ei anghredu, sydd yn gwneuthur dyn yn Undodwr. Mi wn am eglwys a wahoddodd wr ifanc yn weinidog, flynyddau maith yn ol, heb fod yn credu dim, ac ym mhen tair blynedd aeth yr eglwys i beidio credu dim. Syrthiodd yr eglwys i sefyllfa wael; ymadawodd y gweinidog. Trafferth a gofid fu rhan amryw o'i olynwyr, a di-lewyrch fu'r eglwys. Dylid bod yn sicr am safle cred y troedig cyn ei sefydlu. Dylid gwybod beth yw natur ei genadwri, os oes ganddo genadwri o gwbl. Y peth mwyaf boddhaol i'r troedig, os yn ifanc, fyddai mynd i'r Coleg am flwyddyn, fel y gallo gael ei draed tano.

(Pw barhau.)

OFFEIRIADAETH A DIFRAWDER CREFYDDOL.

Sylwodd gwr llygatgraff pwy ddydd fod ein hoes mewn perthynas i grefydd yn driftio i gyfeiriad offeiriadaeth ar un llaw, ac i gyfeiriad difrawder ar y llaw arall.

Credaf nad yw'r sylw ymhell o'i le. Un ryfedd yw'r natur ddynol. Sycheda'r werin am Ryddid; boddlona i dalu am dano mewn gwaed; eto ymddengys nad yw yn ei hoffi yn wirioneddol. Gellir cadarnhau hyn o osodiad trwy droi at hanes y Diwygiad Protestanaidd. Brwydrodd Luther a'i ganlynwyr i ryddhau eu hunain oddiwrth hualau Eglwys Anffaeledig, eithr yn unig i gofleidio Llyfr Anffaeledig.

Gellir deffinio'r diwygiwr fel un sydd yn creu problemau y dyfodol wrth geisio dadrys problemau'r presennol. Ymddengys, oherwydd *stupidity* y werin, nad yw brwydrau rhyddid wedi bod yn ddim amgen na brwydrau allan o un caethiwed i gaethiwed arall. Myn y bobl ryddid i ddewis eu caethiwed, dyna'i gyd. Beth yw'r achos o beth fel hyn? Dywed teithiwr enwog, mai'r nodwedd fwyaf gyffredin ymhlith dynion ydyw'r tueddiad tuag at ddiogi.

Mae Bergson wedi ysgrifenu traethawd yn dwyn y teitl "Athroniaeth Chwerthin." Buasai traethawd ganddo ar "Athroniaeth diogi"

yn werthfawr hefyd ; oblegid credaf mai diogi sydd wrth wraidd llawer o'n twymynon cymdeithasol heddyw; a phe gellid dadrys y pwngc o ddiogi diflannai nifer luosog o broblemau ein cenhedlaeth.

Gellir gwneyd rhestr lled hir o wahanol ffurfiau o ddiogi, ond ni thraethaf yn awr ond ar un o honynt, sef,

Diogi Meddyliol.

Paham nad yw dynion yn meddwl drostynt eu hunain? Wel, oherwydd diogi yn bennaf. Gorchwyl trafferthus yw gosod y meddwl ar ei olwynion ; a thuedd dyn yw pwyso ar rywun wna feddwl drosto, thywun mwy effro a llafurus nag ef ei hun. Gwna hyn arbed llawer o boen a ffwdan, ond y mae'n palmantu'r ffordd i ormes a Chaisariaeth. Dyna'r rheswm fod Prwsiaeth yn ei wahanol ffurfiau yn gwneyd ei ffordd mor rhwydd yn ein mysg.

Y difrawder hwn sydd hefyd yn magu offeiriadaeth yn ein plith—y dyn hwnnw sydd wedi blino ar geisio llywio ei hunan, ac yn boddloni ar ddywedyd, "Ie ac Amen," fel peiriant i ryw ffurfiau a defodau allanol. Pan welir dyn yn gaethwas i ddulliau a ffasiynau arwynebol cymdeithas y dydd, gellir dweyd am dano ei fod wedi gwadu ei feddwl a'i enaid, wedi gwerthu ei enedigaeth-fraint. Y mae yn rhaid wrth reolau a threfniantau ond fel cynorthwyon, nid fel dybenion ynddynt eu hunain.

Y mae felly hyd yn oed mewn perthynas i'r rheol fewnol a elwir yn gydwybod. Nid yw hon yn anffaeledig, oblegid gellir ei beirniadu, yr hyn ddengys fod rheswm yn arweinydd diogelach.

Pan beidia'r pethau hyn a bod yn gynorthwyon, gan ein rhwystro i droedio llwybr amlwg dyletswydd, rhaid inni fod yn barod i dorri ein hunain ymaith oddiwrthynt. Hyn yw addysg Iesu Grist yn nameg y Samariad trugarog. Yn y ddameg honno darlunia Iesu ddau o gaethion defodaeth yn brysio tua Jerusalem i gyflawni eu dyletswyddau yn y deml. Yn llaid y ffos ar ochr y ffordd deuant ar draws dyn yn ddigyffro, ac i bob ymddangosiad yn farw. Credaf fod gwŷr y brethyn du yn ddigon dynol i deimlo y dylasent estyn cymorth i'r truan ; ond beth os mai corph marw oedd yno? Yr oedd perigl halogi'r dwylaw sanctaidd, ac felly, eu hanaddasu i drafod llestri'r deml dranoeth. Deuai rheolau'r urdd o flaen pobpeth. Felly yr oedd rhaid iddynt fogi eu *dynoliaeth*, a brysio ymlaen.

Yfory byddai'r drefn eglwysig yn hawlio'r Lefiad fel ysgubwr lloriau'r deml, a'r offeiriad at waith cysegredicach fyth ; ac yn hytrach na pheryglu eu hunain trwy droseddu'r drefn gadawsant yn archolledig i orwedd yn ei waed. Nid oedd gan Iesu wrthwynebiad i gadw llawr yn lân, na gweinyddu seremoni tra safai'r Deml, ona dengys trwy'r ddameg fod mewn bywyd rywbeth pwysicach yn hawlio sylw dyn na rheoleidd-dra, er ei fod yn un ddeil berthynas ag eglwys neu gapel. Daw galwadau'r Duw Byw ar oriau annisgwyl, ac os yr ydym wedi datblygu i fod yn gaethion seremoniol nis gallwn ateb iddynt. Condemniodd Iesu'r offeiriad a'r Lefiad, er dangos fod gwir grefydd yn seiliedig ar brofiad ysprydol mewnol, ac nid ar sacramentau allanol. Y mae defod dda yn gynorthwyol pan symuda bywyd yn ei sianel arferol ; ond pan gymero'r annisgwyliadwy le, y mae'n annigonol. Y ffordd rwyddaf i dreulio bywyd yw yn unol a rheol neu drefn ; eithr nid y ffordd rwyddaf ydyw'r ffordd oreu.

Dywedir yn rhigl fod Cristionogaeth ein hoes wedi mynd yn fethiant. Tebyg ei bod, a hynny yn bennaf am ei bod wedi dirywio i fod yn swyddogaeth wâg, yn drefniant marw. Mae hyd yn oed yr eglwysi rhyddion (tybiedig) yn offeiriadol eu dylanwad—oblegid eu hymlyniad wrth y defodol a'r ffurfiol.

Sylwodd rhywun yn ddiweddar nad oedd Cymru Anghydffurfiol wedi ffarwelio yn llwyr a Phabyddiaeth.

Yn ddiau, mae ceidwadaeth naturiol y Celt yn ffafriol iawn i offeiriadaeth. Nid yw ei yspryd cynhenid yn dygymod a *rationalism*, ac nid yw'n debyg i Gymru dderbyn y Diwygiad Protestanaidd yn rhyw or-groesawus. Eithr nis gwn pa sut y mae cyfrif am Undodiaeth Ceredigion oddiar y safbwynt hwn. Problem ddyrys yw Llwynrhydowen a'r hen eglwysi Arminaidd, ond efallai mai'r eithriad sydd yn profi'r rheol.

Beth bynag, y mae offeiriadaeth yn enill tir ar hyn o bryd. Y mae iddo lawer ffurf heblaw'r un Rufeinig. Casgl nerth oherwydd fod crefyddwyr wedi mynd yn ddiffraw, ac yn tueddu i ddewis eu harweinwyr o fysg y dynion sydd wedi profi eu hunain yn hyddysg mewn rhyw gyfundrefn neilltuol, ac yn medru ei gweinyddu gyda manylder teilwng o'r Pab. Y pris dalwn am drefniant a dulliau diweddar yw ein bod yn cael ein llywodraethu gan ddefodwyr, dynion rhagorol ac angenrheidiol yn ddiau, ond ni welwyd eto'r offeiriad a'r proffwyd ond yn anaml dan yr un het. Dynion a'r elfen broffwydol a'r yspryd blaenfynedol ynddynt ddylai fod yn arweinwyr cymdeithas.

Y mae lle i drefnwyr a gweinyddwyr, ond nid ar flaen y fyddin, eithr y tu ol. Os caiff y defodwr yr awenau, bydd dynoliaeth mewn perygl o gael ei gadael eto yn ei gwaed ar ochr y ffordd. Lle mae'r awenau yn nwylaw'r defodwr, edwina'r achos, ac oherwydd mai efe sydd yn llywodraethu Cristionogaeth heddyw y mae yn methu cwrdd ag angenion yr oes; a chyn y sefydlir Teyrnas Nefoedd ar y ddaear rhaid diorseddu'r defodwyr, a dyrchafu'r proffwydi.

D. CELLAN EVANS,
Ansdell.

RHANAU O BREGETH
YR HENADUR J. M. HOWELL, ABERAYRON, YNG NGHAPEL CILIE, SUL, HYDREF 31, 1920.

"Eithr fe a ddywed rhywun, pa fodd y cyfodir y meirw; ac a pha ryw gorff y deuant."

Y mae mynediad nifer mor fawr o'n cyfeillion i'r byd sydd y tu hwnt i'r llen, yn y blynyddoedd diweddaf hyn, wedi awchlymu ein hymchwil am eu hynt. Yr oedd pobl Corinth, fel ninnau eisiau gwybod sut y bydd pethau wedi trangc y corff. Dynion ymchwilgar, athronyddol, rhesymegol, yn ngwyddorau meddwl oeddynt.

A dyma eu ymholiad hwy, fel ein ymholiad ninnau heddyw—"pa fodd y cyfodir y *meirw?*" gyda'r pwyslais ar y gair meirw. Ac a chaniatau y cyfodir y meirw, "a pha ryw gorff y deuant." Os. (os o amheuaeth) y cyfodir y meirw, pa fath gorff fydd corff yr adgyfodiad?

Cofiwn mai ateb pobl athronyddol, ddysgedig, y mae Paul.

BETH YW EI ATEB?

"O ynfyd, y peth yr wyt ti yn ei hau ni fywheir oni bydd efe marw, a'r peth yr wyt yn ei hau, nid y corff a fydd yr ydwyt yn ei hau," &c. Nid yw ystyr y gair *ynfyd* yma, yr ystyr a roddwn ni iddo. Y mae llawer adnod yn cael ei chamddeall am nad ydym yn deongli ystyr geiriau yn gywir. Ystyr y gair *ynfyd* yma yw, yn iaith Sir Aberteifi, dyn *diweld*, dyn twp. Edrych o'th gwmpas, a thi a weli nad yw mor anghredadwy y cyfodir y meirw. "Y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywheir oni bydd efe marw," &c. Y mae angeu yn borth i fywyd.

Ac nid yn unig hynny, ond y mae yn borth i fywyd helaethach a gogoneddusach. "Eithr Duw sydd yn rhoddi iddo gorff fel y mynodd efe." Aeth y gronyn gwenith i lawr yn noeth. Daeth i fyny yn dywysen, felen, wisgi. Dyma ymresymiad yr apostol, ynte—gall y Duw sydd yn gwneyd hyn, wneyd unrhyw beth—"Felly" y bydd adgyfodiad y meirw." *On this plane, and according to this order of things.*

Yr ydym yn gweled mai ffol yw gosod ein gwybodaeth a'n profiad yn derfyngylch i weithrediadau *dyn*. Y mae yr hyn a welwn heddyw yn rhyfeddach na'r hyn a alwn yn wyrthiau. Y mae llongau yn mynd dan y môr, a thrwy yr awyr. Gellir siarad a phobl yn Awstralia yn ddigyfrwng. Pe bae ein rhagflaenyddion fuont feirw gan mlynedd yn ol yn ymgynnull i'r capel hwn heddyw, a phe y ceisiwn egluro iddynt y pethau hyn, ni chredent.

Ond beth am adnoddau y Duw sydd y tu ol i'r oll? Os yw darganfyddiadau dyn, o blith y trysorau a guddiodd y Crewr mewn awyr, daear a dwfr, yn syfrdanu deall a rheswm—pa beth all fod stôr ei allu creadigol?

Y GWIR YW—

"Earth's crammed with heaven,
And every common bush afire with God,
But only he who *sees* takes off his shoes."

Y peth sydd eisiau yw, rhyw *sixth sense*—y peth a elwir gennym ni, y Methodistiaid, yn ffydd. Rhaid ein gwneyd fel plant bychain, i fynd i mewn i deyrnas nefoedd. Plant sydd yn medru synnu, a dechreuad doethineb, meddai Plato, yw *synnu*.

GWEDDI'R ARGLWYDD.

Ein Tad nefol o'r uchelder,
D'enw grasol a sancteiddier.

Bid d'ewyllys ar ddaearen,
Fel y mae'n y nefoedd lawen.

Dyro heddyw wir Jehofa
Inni ein beunyddiol fara.

Dod faddeuant o'n dyledion,
Fel y rhown i'n cyd-gristnogion.

I demtasiwn paid a'n t'wyso,
Gwared ni rhag drwg i'n hudo.

Canys eiddot yw teyrnasu,
Nerth, gogoniant oll, a gallu,

Yn oes oesoedd wrth ystyrio
Yn dragywydd: Felly byddo.

1686. SION FYCHAN.

CYWYDD CYFARCH R. J. J. (1915).

At enwog a ffyddiog, O ffon,
Brysia, â chamrau breision ;
I Aberdar, bro y dydd—
Doi ati cyn diwettydd ;—
A chyfarch y patriarch pur,
Fel Hwntw, nid ar antur.

O lenor, gwych ei lanwaith ;
O fardd, a harddws ein hiaith ;
O athro, sy'n cyffro cân ;
Perl o bregethwr purlan ;—
O dir Caint, fy mraint yw dod
I'ch hannerch, wr gwych hynod ;
Gwr anheilwng a'm gyrodd ;
Rhy sâl wyf i'm galw'n rhodd :
Dyma fi ! Er saled wyf,
Hyder sydd im' nad ydwyf,
Yn llwyr anaddas i'ch llaw :
Daliwch fi yn eich dwylaw !

Parod fyddaf, bob bore,
I'ch llaw, pan o gylch y lle
Y rhodioch—nid heb redeg
Pan ddigwydd cael tywydd teg.
Onid sal, ger Hen Dy Cwrdd,
I gafod â ni gyffwrdd?
Rhaid f'ai wrth len—lawlen laith,
Yn amdo ar ein hymdaith ;
Llonydd, o'r herwydd, fo'r hin,
Pan gamom y pen "Gomin" ;
A mi'n eich llaw, draw pob drwg
A gilia—whiw—o'r golwg.

Hir oes i'ch, heb groes, heb gri,
Eto—a dwy oes ati ;
Cyfeillion, cyson eu co'
Da fwriad, a'ch difyro ;
Arial, o fagu wyrion,
A bri a ddiddanoch bron ;
Eich awen, o'i hufen hi,
A gorddo lawen gerddi ;
Boed bendithion dynion da
'N doreithiog hyd yr eitha' ;
Iechyd hefyd ; gwynfyd Ion
Eis aionos aionan.

Ffwrdd, O ffon, nac oeda'n ffol ;
Y pastwn, bydd apostol ;
Er hafog maith y rhyfel
A ddaeth ac eto a ddel,
Cana di, fel cenad hedd,
Yn nwyfus fawl tangnefedd
Doed bendith, o'r tryblith trwch ;
Boed heddyw i'r byd heddwch,
A rhan dda, o'r hyn a ddel,
Yn dŷn, eidduna Daniel,
I un fe'n llew hyd fin llain
Dêr, hygar, Pedwar Ugain ;
Ei haedd ydyw cyrraedd cant
(Iawn argoel !) ar Waun Wrgant ;
A rhoed y Tad, o'i rad ras,
Nod arno yn ei deyrnas !

D. R. a'i cânt.

*Tachwedd 1915.**

[*Derbyniwyd y Cywydd yn ogystal a'r ffon y mis crybwylledig.]

CAERONEN.—Cyrddau Diolchgarwch, nawn a hwyr Gwener, Tachwedd 5ed. Pregethwr—Y. Parch. Lewis Williams.

ALLTYBLACCA, CAPELYBKYN, A'R CWM.—Gwasanaethwyd yn y Cyfarfod Diolchgarwch, yn y blaenaf, gan y Parchn. T. A. Thomas a Lewis Williams, ac yn yr olaf gan y Parchn. T. O. Williams, B.A., Brondeifi, a L. Williams. Cafwyd cynulliadau lluosog.

PANTYDEFAID A'R GRAIG, LLANDYSSUL. — Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch yn yr eglwysi uchod, Sul, Llun a Mawrth, Hydref 31, a Tachwedd 1 a 2. Gwasanaethwyd yn yr oll gan y Parch. Lewis Williams, a'r Gweinidog.

PRIODAS.

Fore Sadwrn, Hydref 30ain, ym Mrondeifi, unwyd mewn glân briodas gan y Gweinidog, ym mhresenoldeb Mr. E. D. Rees, y Cofrestrydd, Mr. William Morgan, Pantfollen, Llanon, a Miss Annie Davies, merch y Cynghorydd a Mrs. Davies, Peterwell Terrace, Llenbedr.

Gwybyddwch, o cherwch chwi—
Gwyn—a fydd, Will ac Annie !

MARWGOFION.

Y MAE cynnulleidfa yr Hen Dy Cwrdd, Cefn, yn teimlo yn flin ar golli ohoni amryw o'i haelodau ieuainc a hen a ymadawsant yn yr angau yn ystod y flwyddyn. Melys odiaeth er hynny ydyw meddwl am rym ac ardderchawgrwydd eu cymeriadau, a theimlwn mai mwyhau, ac nid lleihau, gwerth a chyfleusderau y rhai hyn a wna angau. Nid ydym felly yn wylo fel rhai heb obaith, er fod dagrau ar ein gruddiau. Pan ddechreuir wylo fel rhai heb obaith uwch angau a'r bedd, gellir bod yn sicr yr adeg honno fod pob rheswm dros ymegnio mewn ystyr foesol ac ysbrydol ar ddarfod am dano. Nid oes sail feddylegol ddigonol i arucheledd cymeriad, i lendid buchedd, i wasanaeth gwirfoddol ac adeiladol fel delfryd uchaf bywyd, ond yn yr ymwybyddiaeth sydd yn ein meddiannu fod dyfodol i ni fel personau. Diolch am y teimlad mai biliogaeth yr Hen Ddihenydd ydym. Ar y 15fed o Chwefror, ar ol hir ymddihoeni a brwydro caled ac amyneddgar, ymadawodd ein chwaer ieuanc ac anwyl, Miss Maggie Jenkins, â ni, a hi yn 26ain oed. Merch ydoedd i Mr. a Mrs. Rhys Jenkins, 6 Cromwell Street, Merthyr, ac un o oreuon y ddaear. Gwledd i lygad ydoedd ei gweled yn ymegnio gydag achos crefydd, a llawer gwaith y gwelwyd hi yn y cynnulliadau pan y dylasai fod yn ei gwely. Daeth lluaws mawr i'w chynhebrwng, pan ar ol gwasanaeth byr yn y ty ac yn y capel, y daearwyd ei gweddillion ym Macpelah y teulu ym mynwent yr Hen Dy Cwrdd, ar y 19eg o'r un mis, yng ngwydd cynnulliad mawr. Cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol yn y capel ym mhen yspaid fer, a phregethwyd gan ei Gweinidog.—— Pedwar o blant yr Ysgol Sul a gollwyd yn ystod y flwyddyn oeddynt: William Clifford Evans, mab Mr. a Mrs Evans, 2 Rees Court, Cefn Coed, yr hwn a fu farw o'r *meningitis* ar y 18fed o Chwefror, yn 6 oed, ac a gladdwyd ym mynwent yr Hen Dy Cwrdd ar yr 21ain o'r mis. Dannie Hopkins, mab Mr. a Mrs. Hopkins, 1 Heber Court, Cefn Coed, yr hwn a fu farw o'r *meningitis* eto, ar y 25ain o Chwefror, yn 6 oed, ac a gladdwyd ar y 1af o Fawrth, ym mynwent Carmel. Dorris May Morgan, merch Mr. a Mrs. Morgan, 2 South Terrace, Cefn Coed, yr hon a fu farw o'r darfodedigaeth, ar ol dioddef yn hir, ar yr 2il o Ebrill, ac a gladdwyd ar y 6fed o'r mis, ym mynwent yr Hen Dy Cwrdd. Yr oedd hi yn 14 oed. Richie Evans,

mab Mr. Albert a'r diweddar Mrs. Evans, 1 Fair View, Cefn Coed, yr hwn a fu farw o'r darfodedigaeth, Awst y 10fed, yn 6 oed. Claddwyd ei weddillion ym medd ei fam, yr hon a'i blaenodd ychydig fisoedd, ym mynwent y Faenor, ar y 14eg o'r mis.

HYDREF 24, Thomas Thomas, Pantcoch Villa, gynt o Ffinant, Talgarreg, yn 68 oed. Gadawodd mewn galar briod, plant, ŵyrion, ynghyd a nifer luosog o berthynasau agos ereill, a chyfeillion. Mwynhaodd iechyd rhyfeddol o dda ar hyd ei oes; yn wir, yr oedd o gyfansoddiad cryfach na'r cyffredin hyd nes i'w iechyd ddechreu rhoi ychydig fisoedd cyn ei farw. Wedi dechreu gwaelu gwaelodd yn gyflym, ac ar adegau yr oedd ei gystudd yn galed a phoenus iawn, ond dioddefodd efe yr oll yn amyneddgar a dirwgnach. Ystyrid ef yn weithiwr deheuig a medrus, yn enwedig gyda rhai gorchwylion, megys gosod tô gwellt ar dŷ, a thynnu cerrig o'r chwarel, Yr oedd o dymher ysprydol a gobeithiol, bron tuhwnt i'r cyffredin; nid oedd bwganod yn ei fyd ef, ac nid a'i hanner cam i gwrdd a gofid. Y canlyniad oedd ei bod yn bleser bod yn ei gwmni – a'i gael yn ei hwyliau gorau. Yr oedd hanner awr yn ei gwmni yn amheuthyn. Yr oedd yn nodedig am ei ddifyrwch. Ar adegau, dywedai bethau ysmala a doniol dros ben, ond difyrwch diniwed a didramgwydd oedd ei eiddo ef Yr oedd yn ffyddlawn iawn yn Mwlchyfadfa, a chymerai ran flaenllaw gyda phobpeth perthynol i lwyddiant yr achos. Yno, fel yn ei gartref, fe welir ei eisiau. With ei golli ef collodd y teulu ei gysgod, a chollodd y gymydogaeth ddyn cymwynasgar. Claddwyd yr Iau canlynol, yn Mwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, a'r Parch. —— Thomas, (A.), gweinidog Llwyncelyn. Cafodd angladd lluosog a pharchus.

HYDREF 26, yn 66 mlwydd oed, bu farw Mrs. Margaret Jones, anwyl briod Mr. Evan Jones, Teify View, Llanfihangel-ar-Arth, gan adael ar ol mewn dwys alar ei hoff briod, dwy ferch, dau frawd, a thair chwaer, heblaw llawer o berthynasau ereill a chyfeillion. Bu yn gwaelu am amryw fisoedd, ond nid oeddid yn meddwl, hyd yn ddiweddar, fod y diwedd mor agos. Derbyniodd yn ei chystudd bob gofal a thynerwch ar law ei hanwyl briod a'r ddwy ferch, ac ni arbedasant na thraul na thrafferth er ceisio ei hadfer i'w chynefinol iechyd. Dechreuodd hi a'i phriod fyw yn yr ardal hon ryw 40 mlynedd yn ol, a buont yn dra llwyddianus drwy ddiwydrwydd a gofal i gyrhaedd sefyllfa anrhydeddus yn y byd. Yr oedd yr ymadawedig yn dra chyfarwydd yn y llyfr goreu sydd genym, ac yr oedd hefyd yn meddu syniad go glir o hanfodion bywyd. Yr oedd bob amser yn rhoi pwys mawr ar arwain bywyd iawn, a gellir yn ddibetrus ddyweyd ei bod yn esiampl i lawer yn y cyfeiriad hwn. Meddai ar synwyr cyffredin cryf. Credai mewn bod yn garedig i bawb, yn neillduol felly i'r tylawd a'r anghenus. Claddwyd hi y Sadwrn canlynol yn mynwent henafol y plwyf. Cafodd angladd anrhydeddus. Daeth lluaws o bell ac agos i weini y gymwynas olaf i'r chwaer garedig. Gwasanaethwyd yn y tŷ, yn yr Eglwys, ac ar lan y bedd gan y Ficer, Mr. Hughes. Rhodded y Tad goreu bob help i'r galarwyr er eu cysur.

TACHWEDD 19, ar ol cystudd byr, yn 74 mlwydd oed, Evan Davies, Dyffryn Duar, Llanybyther, gynt Nantmeddal, plwyf Llanarth, mab y diweddar John Davies, Abercwm, Llanllwni. Claddwyd y Mawrth canlynol ym mynwent Eglwys Ciliau Aeron, lle'r oedd ei briod a rhai plant wedi eu claddu o'i flaen. Gwasanaethwyd yn y tŷ yn ol ei ddymuniad gan ei hen weinidog, y Parch. J. Davies, a chynorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parchn. Lewis

Williams a John Morris, M.A., Ficer. Gadawodd un mab a dwy ferch i alaru'n ddwys ar ei ol. Boed iddynt fodd i alaru'n gymedrol, ac i efelychu eu tad yn ei rinweddau. Yr oedd iddo ef air da gan gylch helaeth ei adnabyddiaeth, a chan y gwirionedd ei hun. Bydded i eglwys Alltyplaca deimlo'r rhwymedigaeth newydd roddir arni drwy farwolaeth ei haelodau fel hyn o un i un.

MANION AC HANESION.

BRONDEIFI.—Cawsom ni ddau *Red Letter Day* yn hanes yr eglwys yn ystod y Suliau a aeth heibio—Sul y Maer a Sul Dadorchuddio Tabled o farmor gwyn i'n milwyr syrthiedig. Ar fore Sul y Maer, Tachwedd 14eg, yr oedd eglwys Brondeifi yn llawer rhy fach i gynnwys dinasyddion bwrdeisdref Llanbedr. Hwyrach fod hyn i'w briodoli i'r ffaith mai'r Henadur Lewis D. Jones ydyw'r Undodwr cyntaf i fod yn Faer y dref, ac fod eglwys Brondeifi am dalu parch iddo. Beth bynnag am hyn y mae o linach un o hen ffyddloniaid yr achos, ac y mae'r teulu wedi chwarae rhan flaenllaw yn y lle, a'r Maer ei hun yn ysgrifennydd yr eglwys ar hyn o bryd. Yr oedd rhwysg a lliw gwisg swyddogol y Maer, a'r Cyngor, a'r *Foresters*, heb son am y *Boy Scouts*, yn lliwio'r gynnulleidfa enfawr, a theimlem mai diwrnod mawr ydoedd, ac fod "gwasanaeth syml" yn apelio atom, ac yn cydio ynom. Pregethwyd gan y gweinidog fel Caplan y Maer, oddiar y geiriau: "Chwiliwch allan o'r holl bobl am wŷr galluog, yn ofni Duw, gwŷr geirwir, a gosodwch y rhai hyn *arnom*. . . . . Gwasanaethwch mewn symlrwydd calon, ac nid fel boddlonwyr *dynion*." Ar brynhawn Sul, Hydref 21ain, daeth torf enfawr arall ynghyd i dalu parch i goffa pum milwr a syrthiodd yn y Rhyfel Mawr. Daeth tua hanner cant o filwyr (*ex-service men*) Llanbedr i'r gwasanaeth, gan aros a'u pennau wedi ymgrymu tra dadorchuddiai y Parch. R. C. Jones y tabled hardd cerfiedig o farmor gwyn gydag ychydig o froddegau dwys. Gosododd Captain Evan Evans, M.C. flodeudorch (*wreath*) o flodau gwynion ar y tabled (ac yr oedd un yno eisoes o ddail y llawryf). Chwareuwyd y "*Last Post*" a'r "*Dead March*," a thradododd y gweinidog ychydig sylwadau oddiar y geiriau "Fel na byddo'r byw byw mwyach iddynt eu hunain." Ni bum erioed mewn gwasanaeth cyn ddwysed, gweld rhieni a cheraint yn cofio'u hanwyliaid—gweld y milwyr yn cofio'u cyfeillion coll, a gweld ardal gyfan yn cofio pum milwr ieuanc, a chredaf fod cyweirnod y gwasanaeth ar y tabled—ie, a chyweirnod crefydd syml Iesu—"*y mae i ni'r byw bendersynu na bu'r milwyr hyn farw yn ofer.*"

BWLCHYFADFA A LLWYNRHYDOWEN. — Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhauaf yn y lleoedd uchod nos Fawrth a nos Fercher, Hydref 19 a 20, pryd y gwasanaethwyd gan Mr. Lewis Williams, Alltyplacca. Cafwyd cyfarfodydd hwylus a llwyddianus iawn.

BRONDEIFI.—Cynhaliwyd Cyrddau Diolchgarwch yr eglwys uchod, nos Iau, Tachwedd 4ydd. Pregethwyr—Y Parch. T. O. Williams, a'r Parch. Daniel Jones (B.), Caersalem.

MARWGOFION.

AR y 24ain o Hydref, yn 72 oed, bu farw John Thomas, Tanrhiw, gynt o Dy'r Capel, Troedrhiw, ger Cribyn. Er fod ei iechyd wedi ei amharu er's dros flwyddyn, eto parhaodd i fyned oddiamgylch hyd y dydd Mercher cyn ei farwolaeth; o'r dydd hwn hyd y Sul dilynol dioddefodd gystudd caled iawn, a da oedd iddo gael ei ryddhau o'i boenau. Hannai o deulu fuont yn Undodiaid ymron er cychwyn yr achos Undodaidd yn y sir; a bu yntau yn ffyddlon i grefydd ei dadau hyd y diwedd. Er pan ddaeth i fyw i'r gymydogaeth, tua deugain mlynedd yn ol, bu'n ddifwlch o ffyddlon fel aelod o gynulleidfa Cribyn. Nid oedd ei le byth yn wâg. Er na chafodd fawr o addysg yn ei ieuenctid, eto yr oedd yn ddyn o feddwl craffus, o farnau goleuedig. Teimlai ddiddordeb mawr yn yr achos Undodaidd, ac ni roddai dim fwy o bleser iddo na siarad am dano. Yn neilldduol, fe deimlai ddiddordeb yng nghaniadaeth y cysegr, er na fedrai ganu ei hun; ac ni esgeulusai fynychu un Gymanfa Ganu, os o fewn cyrhaedd iddo. Gadawodd mewn galar ar ei ol un ferch, dau frawd, dwy chwaer, a pherthynasau agos ereill; a chwith iawn gan gylch ei adnabyddiaeth ei golli. Claddwyd ei weddillion ym Mrynhafod, dydd Mercher canlynol, pryd y talwyd iddo y gymwynas olaf gan dorf luosog. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Cribyn, a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. Conwil Evans a Glyn Edwards.

AR y 4ydd o Dachwedd, bu farw Elizabeth Howells, Tower Hill, plwyf Pencarreg, yn 78 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Griffith Jones a'i briod, o'r Frowen, o'r un plwyf; ac o deulu lluosog, nid oes yn fyw yn awr ond un brawd a dwy chwaer. Am ran fawr o'i bywyd bu'n wael ei hiechyd; ac am y deunaw mlynedd diweddaf cyfyngwyd hi yn llwyr i'w gwely. Er iddi oddef cymaint, eto parhaodd yn hynod o siriol ac amyneddgar hyd y diwedd, a chadwodd yn fyw ei ffydd yn naioni Duw trwy'r cwbl. Yn wir, dyna fu ei chymorth pennaf yn ystod ei chystudd; a gwireddwyd yn ei phrofiad hi eiriau'r Apostol, "Ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn ododog rhagorol, yn gweithredu tragwyddol bwys inni"—er na fu ei chystudd, i'n golwg ni, na byr nac ysgafn. Collodd ei phriod ychydig gyda chwe' blynedd yn ol. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol ddau fab, ynghyd a'r brawd a'r chwiorydd, a pherthynasau lluosog ereill. Diameu y gwel y meibion ei lle yn wâg am hir amser, oherwydd, er yn ffaeledig, llanwai ei lle fel mam dda, dyner, gofalus o honynt. Cysur ydyw iddynt hwythau i feddwl eu bod wedi gwneud iddi yr oll o ymgeledd a fedrent, yng ngwyneb anhawsterau mawr. Nerth a gaffont i alaru fel rhai â gobaith ganddynt am ail-gyfarfod. Yr oedd yn aelod yng Nghapelygroes er yn ieuanc iawn, fel y mae ei meibion; ac er na fu mewn addoliad yno er y cyfyngwyd hi i'w chartref gan ei chystudd, eto teimlai ddiddordeb mawr yn yr achos, a disgwyliai i'r meibion roddi iddi'r hanes yn fanwl pan y presenolent hwy eu hunain yn yr addoliad. Daeth tymor ei dioddefaint i derfyn, a diau fod marwolaeth yn elw iddi. Hebryngwyd ei rhan farwol i fynwent Capelygroes, dydd Mawrth canlynol, gan dyrfa luosog iawn. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Capelygroes, a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parch. D. Jones (B.), Noddfa; T. O. Williams, B.A.; R. C. Jones, ac E. O. Jenkins.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

BOOKS ON LIBERAL RELIGION.

— Just Published. —

A Unitarian's Thought of God. By Christopher J. Street, M.A., LL.B. Crown 8vo, 94 pp., 2s. 6d. net, paper 1s. 6d. net, postage 3d. "This little book is the result of a firm conviction that no solution is to be found for the deepest problems of life except in the thought of God and the realisation of his presence and operation in the life of man."—*Preface.*

Realities and Reconstruction. By R. Travers Herford. Crown 8vo, 152 pp., 3s. 6d. net, paper 2s 6d. net, postage 3d. "It is salutary to read these quiet, sensible chapters which hold up a high ideal, but at the same time remind us of some obstinate facts."—*Inquirer.*

The Parables of Jesus applied to Modern Life. By J. Cyril Flower. With a Foreword by Dr. L. P. Jacks. Crown 8vo., 116 pp., paper 2s. net. Mr. Flower writes as one who believes that "the time is at hand when we shall cease to chatter about the person of Christ, and when the world will catch a glimpse of the real man of Galilee, and give ear to a teaching which, like the seed growing in secret, shall germinate in the hearts of men and revolutionize our social life, our industrial order and our religion."

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: *Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),*

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., R. C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited.

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2.

Over 1460 Offices in England and Wales.

Subscribed Capital ..	.. £38,096,363
Paid-up Capital ..	.. 10,840,112
Reserve Fund ..	.. 10,840,112
Deposits (*June 30th, 1920*)	. 367,667,322

Llandyssul Branch: 9, Lincoln Street

Manager: ***Mr. T. M. JONES.***

Affiliated Banks:

Belfast Banking Co., Ltd.
Over 110 Offices in Ireland.

The Clydesdale Bank Ltd.
Over 150 Offices in Scotland.